# Adroddiad Arolygu

**Cylch Meithrin Parc y Werin**

**City & County Of Swansea**
**Parc Y Werin Pavilion**
**Brynawel Road**
**Swansea**
**SA4 4UX**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

13/09/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir, a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Cylch Meithrin Parc y Werin

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarpeir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Cylch Meithrin Parc y Werin |
| Lleoedd cofrestredig | 20 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | [Nodi â Llaw]<br>Arolygiad cyntaf yn dilyn cofrestru |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | [Nodi â Llaw]<br><br>Nac ydy |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hybu'r iaith Gymraeg a'i diwylliant? | Mae'r gwasanaeth yn darparu "Cynnig Rhagweithiol" o ran y Gymraeg ac yn arddangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Digonol** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Digonol** |
| **Yr Amgylchedd** | **Digonol** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Digonol** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae plant yn hapus ac yn hyderus i gyfathrebu gyda phlant a staff. Maent wedi ymgartrefu ac yn gyfforddus i chwarae gydag eraill. Maent yn mwynhau eu dysgu drwy ystod o weithgareddau. Mae plant yn cael cyfleoedd i magu hyder ac annibyniaeth ac yn hapus i dderbyn cefnogaeth pan fo angen.

Mae staff yn cefnogi plant i gael profiadau chwarae hapus. Er bod mwyafrif o staff yn deall eu cyfrifoldebau i gadw plant yn ddiogel, nid yw holl staff y lleoliad yn hyderus o'r gweithdrefnau diogelu ac mae hwn yn faes i'w wella. Mae staff yn adnabod y plant yn dda ac yn cynnig amserlen o themâu priodol, ond mae angen datblygu camau dysgu nesaf ar gyfer y plant er mwyn iddynt ddatblygu'n effeithiol.

Mae'r bobl sydd yn rhedeg y lleoliad yn cynnig amgylchedd digonol ac mae plant yn symud o amgylch y safle yn hyderus. Mae'r adnoddau a'r ddarpariaeth yn addas ar gyfer oedran y plant ac yn cael eu cadw yn dda. Ond, mae angen rhai gwelliannau ar elfennau diogelu ac iechyd.

Mae'r arweinyddiaeth a rheolaeth yn foddhaol ar y cyfan. Mae ganddynt bolisïau a gweithdrefnau yn eu lle gyda llawer o agweddau'r lleoliad wedi'u rheoli yn briodol. Mae staff yn hapus ac yn cydweithio'n dda. Fodd bynnag, mae maes i'w wella ar gyfer ffeiliau staff ac argymhelliad ar gyfer datblygu'r broses o oruchwylio staff yn rheolaidd. Mae rhieni yn canmol y gofal i'w plant ac yn gwerthfawrogi'r cyfathrebu effeithiol.

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Digonol** |

Mae llawer o blant yn cyfathrebu yn hapus gan bod eu dymuniadau a'u hanghenion yn cael eu hystyried.  Maent yn cael rhai cyfleoedd i wneud dewisiadau a phenderfyniadau sydd yn effeithio arnynt. Er enghraifft, maent yn mwynhau cyfleoedd i chwarae yn rhydd a dewis eu hadnoddau. Ar y cyfan, mae llais y plentyn yn elfen da a gwelsom y plant yn gofyn am gweithgareddau a chael eu dymuniadau wedi eu parchu.

Mae llawer o blant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus. Maent yn ymdopi yn dda wrth fod ar wahân. Mae'r ychydig o blant sydd yn newydd i'r lleoliad yn derbyn cefnogaeth gan staff ac yn setlo ar ôl amser. Mae llawer o blant wedi ymgartrefu yn dda ac wedi cyfarwyddo a threfniadau'r dydd. Er enghraifft, maent yn aros mewn rhes i fynd i'r tŷ bach, neu i fynd i'r tu allan. Mae gan llawer o blant ymdeimlad o berthyn, gan feithrin cydberthnasau da wrth iddynt gymysgu a'u ffrindiau a gyda staff.

Mae'r rhyngweithio rhwng y plant a'u gilydd a gyda'r staff yn gyson, gyda llawer yn cyfathrebu'n hapus ac yn frwdfrydig. Mae llawer o blant yn egnïol i chwarae gydag eraill. Er enghraifft wrth iddynt gymryd rhan yn gweithgaredd adeiladu blociau, gwelsom y plant yn cymryd eu tro, yn rhannu ac yn cyfrif.

Mae plant yn cael rhyddid i archwilio'r amgylchedd dan do, ac yn mwynhau symud o amgylch y grwpiau. Er enghraifft, tra roedd grŵp o blant yn cydweithio a thrafod wrth chwarae â briciau yn yr ardal adeiladu, daeth eraill i ymuno gyda driliau a chymysgwr concrid i gyfrannu i'r dasg. Mae llawer o blant yn mwynhau cymryd rhan ac yn cael dewis ardal dysgu, gweithgaredd wrth y bwrdd, neu chwarae ar fat. Maent yn chwarae yn brysur ac yn fodlon rhoi tro ar dasgau. Wrth y bwrdd, mae plant yn cael cyfleoedd i ddilyn thema'r mis drwy arbrofi gyda phaent, plu a glud wrth addurno platiau.

Mae llawer o blant yn mwynhau gwneud penderfyniadau ac yn cael mwynhad wrth gwblhau gweithgareddau a thasgau gyda chymorth neu yn annibynnol, er enghraifft, cwblhau jig-so. Mae gan blant mynediad i'w fflasgiau ddŵr yn barhaol ac yn mwynhau'r rhyddid i gael diod. Mae llawer o blant yn cael cyfleoedd addas ar gyfer eu hoedran a'u datblygiad, sydd yn hyrwyddo eu datblygiad cyffredinol. Mae hyn yn eu galluogi i ddilyn diddordebau eu hunain. Er enghraifft, chwarae yn yr ardal chwarae rôl gyda doliau. Mae llawer o blant yn annibynnol ac yn gallu gwneud pethau drostynt eu hunain. Er enghraifft, wrth fwyta byrbryd a chinio, defnyddio'r tŷ bach ac wrth golchi a sychu eu dwylo.

| **Gofal a Datblygiad** | **Digonol** |
|---|---|

Mae llawer o staff yn deall y rhan fwyaf o bolisïau ac yn eu rhoi ar waith yn gyson. Ar y cyfan, maent yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, diogelwch a llesiant personol y plant. Mae staff yn rheoli risgiau fel rhan o'u gwaith bob dydd ac yn ymwybodol o ddiogelwch y plant a'u hunain. Mae llyfrau cofnodi damweiniau a digwyddiadau yn cael eu cwblhau. Maent hefyd yn cofnodi manylion gweinyddu meddyginiaeth ar feddalwedd cyfrinachol, trwy ffurf ap ar gyfer rhieni. Mae ganddynt bolisi diogelu plant ynghyd â phosteri a manylion cyswllt ar gyfer gweithdrefnau diogelu. Fodd bynnag, ychydig o staff oedd yn hyderus i drafod y broses a dangos dealltwriaeth gweithdrefnau diogelu yn glir. O ganlyniad, mae hwn yn faes i'w wella ac rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i sicrhau bod hyfforddiant diogelu staff yn bwrpasol ac effeithiol i'r lleoliad. Mae llawer o staff yn cyfathrebu trefniadau'r dydd yn gyson ac yn cydweithio yn effeithiol i gefnogi plant i dacluso, paratoi ar gyfer byrbryd, mynd i'r tŷ bach a golchi eu dwylo. Mae'r gweithdrefnau ac arferion glanhau ac hylendid yn eu lle. Er enghraifft, mae staff yn gwisgo menig a ffedogau ac yn darparu bwyd fel tost a banana gydag offer gweini. Mae ganddynt gweithdrefnau newid cewyn ac yn cadw cofnodion cywir. Maent yn deall eu cyfrifoldebau i ddiogelu plant ag alergeddau a gwelsom gwybodaeth clir o'r sawl sydd yn cael sylw manwl. Mae staff yn rheoli niferoedd plant i staff yn effeithiol yn ystod cyfnodau casglu a mynd a phlant i'r ysgol.

Mae staff yn rhyngweithio rhwng ei gilydd a gyda'r plant yn gyson. Maent yn garedig ac yn dangos diddordeb a pharch. Mae llawer o staff yn sensitif i anghenion a phrofiadau plant unigol ac yn fodelau rôl da. Er enghraifft, *"Chi moen mynd i chwarae?" "Da iawn ti." "Dewch i sefyll mewn rhes." "Ti ishe mynd i'r tŷ bach?"* Fodd bynnag, ychydig o staff sydd yn hyderus i gyfathrebu yn y Gymraeg. Ond, mae'r staff i gyd yn ymdrechu i sicrhau bod y plant yn clywed y Gymraeg drwy gweithgareddau cerddoriaeth a chanu. Mae staff yn gosod arferion yn eu lle er mwyn datblygu dealltwriaeth y plant o ran ymddygiad da a chyson. Maent yn annog y plant i ddweud 'plîs' a 'diolch' yn ystod arferion byrbryd a chinio.

Mae llawer o staff yn brofiadol, ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o ddatblygiad plant. Mae ganddynt ymwybyddiaeth o faterion amrywiaeth ac yn hyrwyddo hawliau'r plant. Maent yn hyrwyddo annibyniaeth y plant wrth eu hannog i fynd i'r tŷ bach, a golchi a sychu eu dwylo. Mae staff yn cynnig canmoliaeth wrth i blant gwblhau a chyflawni'r arferion yma yn annibynnol. Mae staff yn cydweithio i ddarparu ystod o weithgareddau yn ôl amserlen y tymor. Er enghraifft, thema taldra, thema gwneud pitsas a datblygu sgiliau'r plant o rhan sut i ddal pensil. Fodd bynnag, yn ystod yr ymweliad, nid oedd tystiolaeth o arsylwadau nac o ddiddordebau'r plant i gysylltu â'r broses gynllunio er mwyn creu camau nesaf o ddatblygiad unigol y plant.

| **Yr Amgylchedd** | **Digonol** |
| --- | --- |

Mae gan y bobl sydd yn rhedeg y lleoliad mesurau a pholisïau boddhaol ar waith er mwyn sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau i sicrhau diogelwch a lles y plant. Ar y cyfan, maent yn ceisio sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac mae'r prif safle dan glo ar bob adeg. Lleolir y cylch meithrin o fewn adeilad gymunedol. Ond y lleoliad sydd yn defnyddio'r safle yn ystod oriau'r dydd sydd yn sicrhau lefel o ddiogelwch pellach. Mae asesiadau risg ar gael ac mae rhain yn cael eu harolygu yn flynyddol neu yn ôl yr angen. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o asesiadau risg yn gyffredinol heb ddiben na thystiolaeth clir o wiriadau manwl yr amgylchedd neu digwyddiadau'r lleoliad. Mae'r bobl sydd yn rhedeg y lleoliad yn ymarfer driliau a gweithdrefnau tân a sicrhau bod darpariaeth ac offer tân yn cael eu gwasanaethu a chofnodi yn rheolaidd. O ganlyniad, mae plant yn cael y rhyddid i symud yn annibynnol o amgylch eu hardaloedd dysgu dan do. Mae gan y lleoliad ardal awyr agored cysgodol wrth brif ddrws y lleoliad. Mae'r ardal dan glo pan mae plant tu allan yn chwarae. Mae'r gofod yn fach ac yn gyfyng o rhan adnoddau a chyfleodd datblygu sgiliau corfforol pellach. O ganlyniad, dywedodd y bobl sydd yn rhedeg y lleoliad eu bod yn defnyddio'r parc o amgylch y safle ar gyfer mynd am dro, ac mae ganddynt asesiad risg ar gyfer yr arfer yma. Mae'r bobl sydd yn rhedeg y lleoliad yn cadw dogfennaeth cywir fel llyfr ymwelwyr, cofrestr y plant a chofnod arwyddo'r staff yn eu lle. Maent yn rheoli rhifau'r plant a chymarebau staff i blant yn gywir ac yn goruchwylio'r plant yn dda.

Mae'r bobl sydd yn rhedeg y lleoliad yn cynnig amgylchedd mewnol sydd yn cynnwys swyddfa i gadw cofnodion yn gyfrinachol a chegin digonol ar gyfer paratoi byrbrydau. Fodd bynnag, mae'r brif ystafell chwarae a dysgu yn edrych yn flinedig ac heb gael sylw o rhan gwaith addurniadol ers amser. Mae'r bobl sydd yn rhedeg y lleoliad yn gosod trefniadau glanhau sylfaenol ar y cyfan. Mae ganddynt arferion rheoli heintiau digonol ac yn lleihau unrhyw risgiau i iechyd a diogelwch y plant. Mae gan y safle toiledau digonol ar gyfer defnydd plant a staff. Fodd bynnag, yn ystod yr ymweliad ond un tŷ bach oedd yn rhan o arfer y dydd. O ganlyniad, roedd plant yn gorfod aros i ddefnyddio'r tŷ bach tra roedd eraill yn golchi dwylo.

Mae'r bobl sydd yn rhedeg y lleoliad yn darparu ystod o adnoddau, er mwyn ennyn diddordeb y plant. Mae'r adnoddau yn ddigonol ac yn cael eu gosod allan o fewn gafael y plant. Yn ogystal, mae amrywiaeth o adnoddau pellach yn cael eu storio, er mwyn cylchdroi adnoddau i blant. Mae'r adnoddau a theganau yn addas ar gyfer oedran a lefel datblygiad y plant. Er enghraifft, jig-sos, adnoddau peintio a chrefft, llyfrau, dillad chwarae rôl, adnoddau byd bach, doliau, adnoddau pren a beiciau.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Digonol

Mae’r bobl sydd yn rhedeg y lleoliad yn cydweithio yn agos gyda’r staff i sicrhau eu bod yn darparu gofal cyson yn ôl y gofynion rheoliadol. Maent yn gwneud hyn drwy ddarparu polisïau clir a datganiad o ddiben sy'n adlewyrchu'r lleoliad yn unol â’r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mae rhain yn cael eu hadolygu yn flynyddol. Mae’r bobl sydd yn rhedeg y lleoliad yn dangos dealltwriaeth y rhan fwyaf o gyfrifoldebau rheoliadol ac ar y cyfan, yn cadw trefn ar y gwaith papur. Yn ystod ein hymweliad, gwelsom cofnodion plant cywir, a bwrdd gwybodaeth i rhieni sydd yn cynnwys manylion yswiriant, gwiriadau a thystysgrifau gwasanaethau cyfredol.

Mae’r bobl sydd yn rhedeg y lleoliad yn gwerthuso’r gofal yn briodol ac yn cyflwyno gwelliannau yn dilyn y broses. Maent yn cwblhau adroddiad ansawdd gofal bob blwyddyn ac yn casglu barn rhieni, plant a staff.

Mae’r bobl sydd yn rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod staff yn derbyn cefnogaeth er mwyn cadw gweithlu hapus a phositif. Maent wedi ffurfio perthynas cydweithredol sydd yn caniatáu iddynt gynnig profiadau pwrpasol a hapus i blant. Mae gan y bobl sydd yn rhedeg y lleoliad system anwytho boddhaol. Fodd bynnag, nid oeddynt yn cadw ffeiliau staff cyflawn. O ganlyniad, mae hwn yn faes i’w wella ac rydym yn disgwyl i’r darparwyr gymryd camau. Mae’r bobl sydd yn rhedeg y lleoliad yn dilyn proses arfarnu effeithiol a gwelsom sampl o waith papur blynyddol sydd yn dangos cyfleoedd am ddatblygiad pellach y staff. Gwelsom bod y broses goruchwyliaeth yn fwy anffurfiol, ond dywedodd y bobl sydd yn rhedeg y lleoliad eu bod yn datblygu’r system er mwyn ffurfioli cyfarfodydd rheolaidd. Dywedodd staff eu bod yn hapus ac yn derbyn cefnogaeth barhaol i gwblhau hyfforddiant. Maent yn gweld eu bod yn elwa o’r broses arfarnu a wedi mwynhau cwblhau cwrs cymorth cyntaf pediatrig ar y cyd yn ddiweddar. Mae’r bobl sydd yn rhedeg y lleoliad yn ymwybodol bod gan llawer o staff diffyg hyder yn y Gymraeg. Maent yn awyddus iawn i gefnogi’r staff yn bellach, fel rhan o ddatblygu sgiliau’r tîm yn ogystal a gwella ansawdd y gofal a’r lleoliad.

Mae gan y bobl sydd yn rhedeg y lleoliad partneriaethau da gyda’r ysgolion lleol gan eu bod yn cynnig gwasanaethau cludiant. Maent hefyd wedi sefydlu cysylltiadau cryf ac effeithiol gyda swyddogion proffesiynol. Dywedodd rhieni eu bod yn hapus iawn gyda’r lleoliad a bod staff yn hawddgar ac yn cynnig gofal cariadus i’w plant. Roedd rhieni yn ganmoladwy am y ffordd y mae gwybodaeth yn cael eu rhannu ar Ap ddiogel ac yn dweud bod eu plant wedi setlo yn gyflym ac yn hapus iawn.

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella / Meysydd I'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 22 | Rhaid i'r darparwr sicrhau bod hyfforddiant diogelu staff yn bwrpasol a bod yr holl staff yn deall gweithdrefnau diogelu'r lleoliad a phwy i gysylltu â nhw os bydd unrhyw honiadau o gam-drin neu esgeulustod sy'n effeithio ar blant perthnasol. | Newydd |
| 28 | Rhaid i'r darparwr sicrhau bod yr holl ffeiliau staff yn cynnwys dau eirda a hanes cyflogaeth llawn. | Newydd |

Lle byddwn yn nodi nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Argymhellion ar gyfer Cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad (argymhellion) |
| Safon 7 – Cyfleoedd i chwarae a dysgu | Sicrhau bod yr hyn y mae plant yn ei wneud yn cael ei arsylwi a'i gofnodi er mwyn helpu i gynllunio'r camau nesaf ar gyfer chwarae, dysgu a datblygiad y plant. |
| Safon – 22 Yr amgylchedd | Sicrhau bod digon o doiledau'n cael eu defnyddio ar gyfer nifer y plant sydd wedi'u cofrestru, gan sicrhau preifatrwydd i'r plant bob amser. |
| Safon 22 – Yr amgylchedd | Sicrhau bod glendid cyffredinol ac addurniad y man chwarae dan do yn cael ei gynnal. |
| Safon 24 - Diogelwch | Sicrhau bod diogelwch yn cael ei hybu drwy'r lleoliad a bod pob asesiad risg yn bwrpasol. |
| Safon 13 (Gofal Dydd) – Person addas | Ffurfioli sesiynau goruchwylio staff a sicrhau bod rhain yn cael eu cynnal yn rheolaidd. |

Lle credwn ei fod yn ddefnyddiol, efallai y byddwn yn gwneud argymhellion arfer gorau. Bwriad y rhain yw annog lleoliadau sy'n gwneud yn dda i fod yn well fyth am helpu plant i ffynnu.

| Arfer Gorau |
|---|
| Argymhelliad (argymhellion) |
| Sicrhau bod staff yn cael eu cefnogi i ddatblygu eu hyder yn y defnydd o’r Gymraeg. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall p'un a yw ein hadroddiadau yn darparu gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, cliciwch ar y ddolen ganlynol i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiad arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol am wasanaeth, ewch i'n Tudalen arolygon adborth

**Dyddiad Cyhoeddi** 14/12/2023